Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd, gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones

16 Medi 2009

Sylwadau agoriadol.

Rwyf yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, "Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd". Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hymdrechion i gasglu ac archwilio'r dystiolaeth a roddwyd ar gyfer yr adroddiad penodol hwn ac am eu hymroddiad i'r celfyddydau a diwylliant sy'n amlwg o'u hymchwil a'r adroddiad hwn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae dull Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd ati'n fwyfwy strategol i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol a phartneriaethau. Mae'r cysylltiadau hyn wedi cwmpasu agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar bolisi'r llywodraeth yn ogystal â rhai economaidd. Maent wedi ymestyn i wledydd ledled y byd, ac rydym wedi gwneud llawer i hyrwyddo ein hunain fel gwlad fach ddawnus. Mae Cymru wedi elwa ar yr ystod eang o bartneriaethau a ffurfiwyd gennym ond rydym hefyd wedi sicrhau bod ein partneriaid - boed yn Chongqing neu yn Affrica - ar eu hennill oherwydd y profiad a'r arbenigedd sydd gan Gymru i'w cynnig.

Mae sefydlu cysylltiadau rhyngwladol wedi golygu datblygu partneriaethau yma yng Nghymru yn ogystal â thramor. Mae partneriaethau â sefydliadau diwylliannol wedi bod yn rhan o'r ymdrechion hyn o'r dechrau. Yn ogystal ag adlewyrchu cryfderau Cymru yn y maes hwn, mae hyn hefyd yn dangos gallu diwylliant i greu a chryfhau cysylltiadau â gwledydd ledled y byd.

Yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, plediais fod hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant cyfoethog ac amrywiol wrth wraidd rhaglen lywodraethu Cymru'n Un. Yn ei dro, bydd hyrwyddo ein diwylliant yn parhau i fod wrth wraidd ein hymdrechion i sicrhau lle amlycach o lawer i Gymru ar lwyfan y byd. Roedd fy nhystiolaeth yn derbyn bod angen i ni ddatblygu partneriaethau effeithiol gartref a thramor os ydym am gadarnhau a gwella'r enw da sydd i Gymru y tu hwnt i'w ffiniau.

Rhan allweddol o bolisi'r llywodraeth ym maes y celfyddydau yw hwyluso mynediad ein hartistiaid i lwyfannau'r byd, a denu rhagor o artistiaid rhyngwladol i Gymru. Rydym am i gynulleidfaoedd tramor weld holl amrywiaeth diwylliant Cymru drostynt eu hunain a'i lwyr werthfawrogi. Mae'n hanfodol datblygu rhwydweithiau rhyngwladol. Rydym yn ffodus yng Nghymru bod gennym sefydliad tebyg i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru, sy'n cael ei gydariannu gan y Cyngor Prydeinig a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r sefydliad hwn wrthi'n sefydlu a meithrin y rhwydweithiau hyn gan sicrhau bod dimensiwn rhyngwladol i agenda'r llywodraeth o ran y celfyddydau.

Rhaid cael seiliau cadarn ar gyfer ein gweithgarwch rhyngwladol. Heb sector celfyddydau cryf a chyffrous yng Nghymru, ofer fydd i ni hyrwyddo ein hunain dramor. O'r herwydd, cenhadaeth Cyngor y Celfyddydau o hyd yw datblygu sector celfyddydau sy'n uchel ei barch, gartref i ddechrau, ac wedyn dramor. Mae buddsoddi mewn teulu o sefydliadau celfyddydau creadigol, cynhyrfus, ac ariannol hyfyw yn sylfaenol i genhadaeth Cyngor y Celfyddydau. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i seilio ei strategaeth ryngwladol ar ein cryfderau domestig, gan adeiladu ar fentrau megis presenoldeb Cymru yng ng• yl y Venice Biennale ar gyfer celfyddyd gyfoes.

Cryfhawyd presenoldeb y Cyngor Prydeinig yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bellach mae'n cynnwys uwch swyddog cynghori ar y celfyddydau, sy'n rheoli perthynas y Cyngor Prydeinig â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae'r camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y misoedd diwethaf i sicrhau bod modd i'w agenda adlewyrchu amrywiaeth yr agendâu diwylliannol a welir nid yn unig yng Nghymru ond ar hyd a lled y DU wedi bod yn galondid mawr i mi. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Gr• p Diplomyddiaeth Ddiwylliannol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o wledydd y DU. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Prydeinig er mwyn hyrwyddo Cymru ac artistiaid Cymru dramor a chefnogi agenda ehangach y Cyngor.

Mae Adroddiad y Pwyllgor yn tynnu sylw at botensial y rhyngrwyd a'r cyfryngau digidol i godi proffil Cymru, ei chelfyddyd a'i diwylliant ar draws y byd. Rydym yn parhau i ddatblygu'r wefan wales.com. Ond rydym hefyd yn manteisio ar dechnolegau rhyngweithiol yn ehangach er mwyn hyrwyddo ein hagenda ddiwylliannol. Bydd Casgliad y Bobl yn offeryn pwysig newydd ym maes Hanes Cymru. Mae'n cael ei ddatblygu gan bartneriaeth rymus newydd sy'n cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), BBC Cymru a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (GCaD). Bwriad Casgliad y Bobl yw cynnig ffyrdd newydd i amrywiaeth o grwpiau a chymunedau ddilyn eu diddordeb mewn agweddau ar ein hanes. Bydd yn ffordd newydd, wrth gwrs, o gyflwyno diwylliant a threftadaeth Cymru i bobl ym mhob cwr o'r byd.

Rwyf yn cymeradwyo'n wresog farn y Pwyllgor bod rhan i'w chwarae gan bob agwedd ar ein treftadaeth ddiwylliannol wrth ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol. Rhaid i ni wneud yn fawr o gyfraniad ein pencampwyr chwaraeon fel llysgenhadon rhyngwladol i'r un graddau â'n cantorion opera. Dylai dyheadau rhyngwladol fod wrth wraidd pob elfen o'n heconomi greadigol, ac nid yn unig brif gwmnïau'r wlad. Mae i'r diwydiannau creadigol gyfraniad pwysig i'w wneud i'r ymdrechion ehangach i wneud y DU yn ganolfan greadigol ryngwladol. Y bri ehangach a roddwn ar y diwydiannau creadigol oedd un o'r rhesymau pam y rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog wahoddiad i'r Athro Ian Hargreaves gynnal adolygiad o'r sector. Byddwn yn ystyried yn ofalus, wrth gwrs, a fydd goblygiadau yng nghanfyddiadau'r adolygiad i'r materion sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn.

Er mwyn achub ar gyfleoedd - a chreu cyfleoedd - i hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd trwy ei chelfyddydau a'i diwylliant, rhaid i Gymru allu darbwyllo eraill bod

rhywbeth i'w gynnig gan ein sefydliadau celfyddydau a diwylliant sy'n neilltuol ac yn gwreiddiol. O wneud hyn, bydd modd i Gymru sicrhau mantais gystadleuol. Fel y nodais yn fy nhystiolaeth mae cangen y llywodraeth**,** Croeso Cymru, yn plethu negeseuon diwylliant a'r celfyddydau mewn ystod eang o fentrau marchnata, a hynny'n gyson. Rwyf wedi bod yn ymddiddori'n fanwl yn y gwaith o ddatblygu'r agenda ar gyfer Cymru ym maes twristiaeth ddiwylliannol, er enghraifft, ac rydym yn adnewyddu'n hymdrechion yn hyn o beth. Un o'r heriau fydd cynyddu'r dwristiaeth ddiwylliannol sydd ar gael ym mhob cwr o Gymru. Rwyf yn credu bod hyn yn hollbwysig er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n dod i Gymru er mwyn mwynhau ein diwylliant yn ogystal â'r golygfeydd godidog a llety croesawgar. Bydd y rhain yn eu tro yn fwy tueddol o ystyried Cymru wrth gynllunio digwyddiadau diwylliannol yn eu rhanbarthau a'u gwledydd eu hunain.

Byddwn yn parhau â'n hymdrechion i hyrwyddo agweddau modern ar ddiwylliant Cymru. Mae lle hefyd i bortreadu ein diwylliant hanesyddol yn fwy effeithiol. Cadw sy'n arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Dehongli Treftadaeth ar gyfer Cymru gyfan. Cam uchelgeisiol yw hwn sy'n unigryw yn Ewrop, a fydd yn ceisio hyrwyddo a chyflwyno treftadaeth Cymru mewn modd cyson, yn awdurdodol a thrwy ddulliau sy'n tanio'r dychymyg a'r teimladau. Mae'r fenter yn cyd-fynd â'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, sef buddsoddiad gwerth £19 miliwn ar gyfer hyrwyddo treftadaeth Cymru i ymwelwyr ar draws y byd. Bellach mae gan Gymru dri Safle Treftadaeth y Byd ar restr UNESCO (Blaenafon, Pontcysyllte a chestyll a muriau Edward I yn y Gogledd). Rwyf yn annog partneriaethau er mwyn sicrhau bod Cymru yn gwneud yn fawr o'r potensial sy'n dod yn sgil ein statws rhyfeddol ar restr Treftadaeth y Byd er mwyn arddangos treftadaeth a diwylliant Cymru yn rhyngwladol.

Mae Adroddiad y Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn hyrwyddo Cymru yn fwy effeithiol dramor. Rwyf yn cytuno'n llwyr, ond mae'r llywodraeth hefyd yn credu bod angen i waith mewn partneriaeth fod wrth wraidd ein hymdrechion i wella'r manteision i'r cyhoedd sy'n deillio o'n rhaglenni yn fwy cyffredinol. Bydd cryfhau'r berthynas hon ymhellach yn ganolog i'n gwaith yn ystod y misoedd nesaf i ddatblygu fframwaith strategol diwygiedig ar gyfer y portffolio Treftadaeth.

Isod rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Nodir yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Dyma argymhelliad y Pwyllgor:

Argymhelliad 1

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru (y cyfeirir ati o hyn allan fel Llywodraeth y Cynulliad) yn adnewyddu ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Ymateb : derbyn

Rhesymeg:

Lluniwyd y ddogfen Fframwaith Rhyngwladol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004, ac er bod yr egwyddorion sylfaenol yn parhau'n ddilys, cafwyd datblygiadau a newidiadau mewn nifer o feysydd sy'n effeithio ar y modd y caiff y Fframwaith ei weithredu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig wedi awgrymu y gallai newid y strategaeth roi symbyliad newydd i'r cysylltiad rhwng polisïau'r celfyddydau a diwylliant, y diwydiannau creadigol a chysylltiadau addysgiadol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig wedi pwysleisio nad digon yw mynd â gwaith artistig dramor: dylid holi yn hytrach "pam yr ydym am i ddiwylliannau eraill weld y darn penodol hwn o waith?". Cred Cyngor Celfyddydau Cymru fod ganddo rôl glir i'w chwarae o ran cefnogi'r gwaith o hyrwyddo Cymru'n effeithiol a rhyddid artistiaid i greu'n annibynnol. Mae'r sylw o ran hyrwyddo effeithiol yn un pwysig, am fod angen i Gymru sicrhau bod pob dull hyrwyddo o ddefnydd. Felly rydym yn derbyn mai dyma'r amser i adolygu'r fframwaith ac ystyried dogfen fwy priodol ar gyfer y dyddiau hyn.

Goblygiadau Ariannol – bydd angen ymdrech weinyddol ac felly bydd angen trefnu bod hyn yn cael ei wneud pan fydd digon o gapasiti ar gael. Swyddfa'r Prif Weinidog fydd yn arwain o ran adolygu'r ddogfen fframwaith a thelir y costau o gyllidebau costau rhedeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ymrwymiad cadarn i hwyluso'r strategaeth ddiwylliant newydd

Ymateb : Derbyn

Rhesymeg:

Rwyf wedi bod yn amharod iawn i ruthro'r gwaith o ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru. Mae 3 blynedd yn weddill o'r datganiad strategaeth presennol, "Cymru Greadigol", ac mae'r gwaith o weithredu Adolygiad Celfyddydau Cymru yn parhau, o dan arolygaeth Bwrdd Strategaeth y Celfyddydau, sy'n cyfarfod ddwywaith neu dair bob blwyddyn ac o dan fy nghadeiryddiaeth i. Diweddarwyd "Cymru Greadigol" gan "Cymru'n Un" i bob pwrpas, trwy nodi bron 40 o ymrwymiadau diwylliannol newydd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant, ac o ran tynnu sylw at Gymru yn y byd. Er nad oes angen na chapasiti i geisio ailadrodd "Cymru Greadigol", rwyf yn bwriadu cyhoeddi datganiad strategol diwygiedig a fydd yn egluro fy mwriadau ar gyfer y Portffolio Treftadaeth. Dogfen lefel uchel fydd hon a fydd yn canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o ffrydiau gwaith allweddol.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y prif gostau ar gyfer llunio'r datganiad hwn yn gysylltiedig â neilltuo amser swyddogion ar gyfer y gwaith.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu gwefan wales.com yn wefan awdurdodol y mae pobl yn troi ati i gael gwybodaeth am Gymru. Dylai'r wefan ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chymryd y cyfle i hyrwyddo nifer fawr o bynciau, gan gynnwys busnes, buddsoddi, y celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth, a'r cyfan hyn dan frand cyson hawdd ei adnabod.

Ymateb : derbyn mewn egwyddor

Rhesymeg:

Cafodd yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol (EEAD) y parth wales.com er mwyn hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ym mis Mawrth 2008 a lansiwyd gwefan wefan www.wales.com ym mis Tachwedd 2008. Ers hynny, mae'r EEAD wedi llwyddo i sicrhau esgyniad y safle o'r 10fed tudalen, neu'n is, o'r canlyniadau ar gyfer "Wales" ar chwilotwr Google, i'r 4ydd o'r brig. (Mae chwilotwyr eraill megis Yahoo a Bing yn rhoi www.wales.com ar y brig).

Dyma'r safleoedd sy'n cystadlu'n rheolaidd â www.Wales.com am le ar y brig wrth chwilio am "Wales": www.visitwales.com ; www.wikipedia.org/wiki/wales ; www.wales.gov . Rwyf wedi nodi'n benodol y sylwadau a wnaed gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac eraill, ynghylch y gwelliannau o ran cydgysylltu a gweithio mewn partneriaeth wrth i ni lunio ein deunydd rhith-hysbysebu, yn enwedig ym maes darparu gwybodaeth am ein presenoldeb rhyngwladol. Rwyf hefyd wedi comisiynu peth gwaith i ymchwilio i ddichonolrwydd creu cronfa ddata ganolog sy'n rhoi manylion yr holl weithgareddau pwysig dramor ym maes y celfyddydau a diwylliant. Rwyf yn croesawu'r awgrym y dylai fod mwy o ymrwymiad ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau allweddol eraill i ymwneud â'r wefan wales.com ac i gyfrannu ati. Anelir wales.com yn bennaf at bobl y tu allan i Gymru ac mae angen i'r cynnwys a'r iaith adlewyrchu hynny. Mae'n bosibl y bydd y rheini sy'n ymweld â'r safle yn gwybod y nesaf peth i ddim am Gymru a'u bod yn ymddiddori mewn unrhyw un o ystod eang o sectorau. Amcan wales.com yw ymateb i'r ffactorau hyn trwy gynnig cynnwys priodol, cyflwyno ymwelwyr i wahanol agweddau ar y cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru o ran diwylliant, busnes, twristiaeth ac astudio, gan gysylltu'n uniongyrchol â ffynonellau perthnasol dros y we lle gallant ddysgu neu ymchwilio ymhellach yn ôl y galw. O 2010 ymlaen, bydd y wefan wales.com hefyd yn cynnig mynediad i ymwelwyr, ymwelwyr posibl ac eraill ledled y byd i Gasgliad y Bobl, a fydd yn cyflwyno treftadaeth Cymru ac yn rhoi cyfle i bobl ymwneud â hi ar-lein.

Dylai'r pwyslais o ran www.wales.com barhau i fod yn un trawsbynciol ac allanol i Gymru. EEAD ddylai arwain y gwaith o hyd, ac maent yn croesawu argymhelliad y Pwyllgor y dylai sefydliadau allweddol adnewyddu'u hymrwymiad i ymwneud â'r wefan.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r gost o neilltuo amser staff ar gyfer y wefan wales.com, ac i'r costau yn achos sefydliadau allweddol eraill sy'n ymwneud â swyddogion Materion Ewropeaidd ac Allanol y Prif Weinidog, sy'n rheoli'r wefan.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n cydweithio er mwyn manteisio cymaint ag sy'n bosibl ar yr arian sydd ar gael (gan gynnwys arian Ewropeaidd) i gefnogi celfyddydau a diwylliant Cymru dramor.

Ymateb : Derbyn

Rhesymeg:

Mae'r cylch gwaith yr wyf wedi'i roi i CCC ar gyfer 2009-10 yn gofyn iddynt "gydweithio â CNLCau ac Adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad er mwyn ymchwilio i ffynonellau cymorth amgen, yn enwedig cyllid Ewropeaidd". Rwyf yn credu ei bod yn bwysicach manteisio'n llawn ar ein cyfran o gyllid Ewrop, yn hytrach na chynyddu'n cyfran, o gofio bod rhaid cael arian cyfatebol ar gyfer cyllid yr UE, ymhlith ffynonellau eraill. O'r herwydd, rhaid i ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl arian sydd gennym er mwyn cyflawni amcanion polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn golygu rhywbeth mwy nag achub ar gyfleoedd ariannu: mae angen rhannu gwybodaeth hefyd er mwyn i wahanol gyrff ymateb ar fyrder i'r cyfleoedd a allai godi. Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn bwysig sylwi ar yr elw a gawn o'n buddsoddiad: roedd taith yr arddangosfa o gelfyddydau gweledol Cymru, *Dathlu'r Ddraig Goch* ym mhedair o ddinasoedd Tsieina rhwng mis Mawrth a Mai eleni yn llwyddiant ac mae'r adborth o'r daith honno wedi bod yn rhyfeddol. Yn Chongqing yn unig, rhoddodd y newyddion lleol a'r sianeli ffasiwn gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad, gan gyrraedd felly gynulleidfa o 400,000 o bobl a mwy. O ganlyniad i gydweithio effeithiol yn ddiweddar rhwng y 3 chorff a enwir uchod a'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru, gwahoddwyd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru i gymryd rhan yn seremoni agoriadol y Theatr Fawr yn Nhalaith Chongqing yn Tsieina ym mis Hydref eleni. Dyma gyfle gwych i'r cwmni a bydd yn cryfhau'r berthynas ymhellach rhwng Cymru a'r dalaith.

Mae CCC a'r Cyngor Prydeinig wedi ymrwymo i roi adborth effeithiol i mi o ran sut y maent yn cyflawni'r argymhelliad hwn, er enghraifft trwy ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr UE. Mae gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru berthynas dda ers tro â thîm Llywodraeth y Cynulliad ym Mrwsel, ac mae nodi a rhannu cyfleoedd perthnasol yn un o'r prif gymhellion dros y berthynas hon. Trefnwyd digwyddiad briffio ar gyfer rhyw 30 o randdeiliaid ym maes y celfyddydau gan Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol Llywodraeth y Cynulliad a chafodd ei gynnal ym Mrwsel ar 6 Mawrth eleni. Nod y digwyddiad hwn - y cyntaf o'i fath - oedd hwyluso'r rhwydweithio a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gael cyllid yr UE ac i gydweithredu.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a CCC wrthi'n ddyfal yn ceisio cefnogi ac annog sefydliadau o Gymru i gymryd rhan yn rhaglenni trawswladol yr UE, er enghraifft yr All-linell ar gyfer Hyrwyddo Cerddoriaeth sy'n Hybu Twristiaeth Ddiwylliannol (IMPACT) sy'n cael ei hyrwyddo o dan y rhaglen Atlantic Arc INTERREG IV.

Goblygiadau Ariannol – Yn ogystal â'r goblygiadau o ran costau rhedeg i sefydliadau sy'n neilltuo amser staff i geisiadau ariannu oddi wrth yr UE, rhoddir ystyriaeth i'r gofynion o ran arian cyfatebol ar gyfer unrhyw arian newydd a ddaw i Gymru.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n archwilio gwell ffyrdd o annog a chynorthwyo'r cyhoedd i gefnogi'r celfyddydau

Ymateb : Derbyn

Rhesymeg:

Rwyf yn cytuno'n llwyr fod angen i ni gynyddu'r arian ar gyfer y celfyddydau sy'n dod o ffynonellau preifat, boed yn unigolion, busnesau, neu elusennau. Yn y llythyr cylch gorchwyl ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, rydym wedi gofyn i CCC ymchwilio i ffynonellau cymorth a fyddai'n ategu cymorth grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, rwyf wedi mynd ati'n benodol i ofyn, mewn cyfarfodydd, i sefydliadau ym maes y celfyddydau a effeithiwyd ar lefelau'r nawdd. Mae'r Cyngor Prydeinig yn cynnig rhwydwaith ac wrth gwrs ei frand sydd wedi ennill ei blwyf yn rhyngwladol, y gellir ei ddefnyddio i ddenu cefnogaeth gan bartneriaid

Goblygiadau Ariannol – costau staffio.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu cynllun gweithredu manwl sy'n gysylltiedig â'i fframwaith strategol. Dylai'r cynllun nodi cyfleoedd penodol, megis y rhai a grëir gan unigolion a chwmnïau celfyddydau teithiol o Gymru, i greu cysylltiadau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru dramor. At hynny, dylai'r cynllun ddatgan sut y bydd pob adran yn Llywodraeth y Cynulliad a phob corff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru'n cyfrannu at y strategaeth, a'r gwaith o'i gyflwyno a'i hadolygu trwy weithio gyda'i gilydd. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth y Cynulliad drafod â phrifysgolion er mwyn archwilio'u profiadau o gysylltiadau rhyngwladol a dysgu o'r profiadau hynny.

Ymateb : derbyn mewn egwyddor

Rhesymeg: Mae cysylltiad cryf rhwng yr argymhelliad hwn ac Argymhelliad 1. Mae effaith Cymru o ran creu cysylltiadau rhyngwladol ffrwythlon a hyrwyddo Cymru dramor ar ei gorau pan fyddwn yn cydweithredu - trwy gydweithredu a chydweithio, lle bo hynny'n briodol ac yn gyson ag amcanion busnes a pholisi'r sectorau a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan, gallwn gwell canlyniadau i Gymru na phe bai pob un yn gweithredu ar ei ben ei hun.

Wrth adolygu'r ddogfen strategol a'r ffordd briodol ymlaen, byddwn yn ystyried pa gynlluniau gweithredu manwl sy'n briodol a chyraeddadwy.

Goblygiadau Ariannol – costau staff.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gall darparu celfyddyd yn rhanbarthol ac yn lleol, yn ogystal ag ar draws Cymru gyfan, gyfrannu at bresenoldeb diwylliannol rhyngwladol Cymru yn genedlaethol, yn benodol felly yn ei gwaith paratoi ac ymgynghori wrth ddatblygu ei strategaeth ddiwylliant newydd a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ddiwylliant a meysydd eraill.

Ymateb : derbyn mewn egwyddor

Rhesymeg:

Bwriad pennaf y cynnig hwn am ddeddfwriaeth yw gwella'r gwasanaethau diwylliannol ar gyfer pobl Cymru yn eu hardaloedd. Nododd y dystiolaeth i'r Pwyllgor, fodd bynnag, mai'r unig ffordd o sicrhau y bydd modd cyflwyno celfyddyd a sefydliadau celfyddyd o'r radd flaenaf i lwyfannau'r byd yw trwy eu meithrin gartref. Bydd y Mesur Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ddiwylliant a meysydd eraill yn rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth trwy Fesur Cynulliad yn ôl y cynhwysedd a ddarperir o dan y Gorchymyn. Yn yr achos hwn, y cymhwysedd a geisir yw'r un i alluogi Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni ei hymrwymiad yn *Cymru'n Un* i roi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac annog partneriaethau er mwyn sicrhau profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf i'w cymunedau.

Mae'r ymrwymiad yn Cymru'n Un yn adlewyrchu'n cred bod gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae er mwyn sicrhau bod diwylliant yn ei ystyr ehangach yn elfen lewyrchus o fywydau ein cymunedau. Ni sicrheir rhagoriaeth ym maes y celfyddydau mewn gwagle. Caiff ei gynnal gan brofiadau pobl o ddydd i ddydd. Yr wyf yn sicr y gall y ddarpariaeth ddiwylliannol a gynigir gan awdurdodau lleol gyfrannu at statws diwylliannol Cymru yn rhyngwladol. Caiff hyn ystyriaeth yn ei iawn bryd wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd statudol.

Goblygiadau Ariannol - Ar hyn o bryd nid oes modd asesu effaith ariannol ymrwymiad Cymru'n Un nac unrhyw effeithiau eraill. Yn gyntaf rhaid i ni benderfynu ar union natur y ddyletswydd statudol er mwyn asesu'r effaith ar awdurdodau lleol.

Argymhelliad 8

Rydym wedi argymell y dylai ymdrechion ein hadrannau a'n hasiantaethau diwylliannol gael eu cydlynu'n well, ac ystyriwn y dylai hyn ymestyn i waith ein hasiantaethau llenyddol. Rydym hefyd yn argymell y dylid datblygu gallu rhwng ein hasiantaethau er mwyn creu canolfan gyfieithu i Gymru.

Ymateb : Derbyn yn rhannol

Rhesymeg:

Bydd mwy o gydweithio a chydlynu yn gwella ymdrechion ein hasiantaethau llenyddol yn union fel y bydd yn sicrhau manteision i'n sefydliad diwylliannol yn fwy cyffredinol. Cafodd yr argymhelliad am "D• Cyfieithu" ei gynnwys yn Strategaeth Ffurfiau ar Gelfyddyd Cyngor Celfyddyd Cymru ar gyfer Llenyddiaeth. Gwireddwyd y cam cyntaf trwy Gyfnewidfa Lên Cymru, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Th• Newydd a'r Academi. Bydd angen rhagor o waith gan Gyngor Celfyddydau Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Goblygiadau Ariannol - Byddai gan fersiwn lawn o D• Cyfieithu oblygiadau o ran costau y byddai angen eu hystyried yn fanwl.

Argymhelliad 9

Wrth ymgynghori ar y strategaeth ddiwylliant newydd, rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y cyfyngiadau ariannol a'r rhwystrau eraill y mae artistiaid yn eu hwynebu.

Ymateb : Derbyn

Rhesymeg:

Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn golygu bod angen neilltuo arian cyhoeddus yn ofalus, yn fy mhortffolio personol i, yn ogystal â phob un o bortffolios Llywodraeth Cymru. Mae nifer o sefydliadau celfyddydau yr wyf wedi cyfarfod â hwy eleni wedi fy atgoffa, fodd bynnag, o'r cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud i gymdeithas trwy helpu pobl i ddeall ac ymdopi â'r sefyllfaoedd heriol sy'n eu hwynebu. Rwyf yn cytuno y dylai gwytnwch y sector yntau gael cymaint o sicrwydd ariannol ag y bo modd i'r sector cyhoeddus ei roi, yn ogystal â lefelau digonol o gefnogaeth mewn meysydd megis mynediad i rwydweithiau, newyddion am gyfleoedd ariannu, ac ati. Dyma'r math o wasanaeth y mae Cyngor y Celfyddydau, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig mewn lle da i'w roi ond byddaf yn bendant yn disgwyl i'r gwaith hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun fy natganiad strategaeth diwygiedig.

Roedd adroddiad arall gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, "Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, yn argymell bod adolygiad annibynnol yn cael ei gomisiynu a fyddai'n edrych ar weithgarwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes y diwydiannau creadigol a'r diwylliant clyweledol. Mae cyfeiriad at waith yr Athro Ian Hargreaves, sydd bellach yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw.

Goblygiadau Ariannol –
Dim byd penodol.

Argymhelliad 10

Rydym yn argymell bod Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru'n ystyried sut y gallant fod yn fwy rhagweithiol wrth farchnata eu gwasanaethau er mwyn ymwneud â'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio ym maes y celfyddydau o ddydd i ddydd.

Ymateb : Derbyn

Rhesymeg: Mae CCC a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cytuno y dylid adolygu effeithiolrwydd y modd y maent yn cyfathrebu.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn rhan o'r cynlluniau cyflwyno ar gyfer datblygu gwefan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'i gylchlythyr *Canfas*.

Argymhelliad 11

Rydym yn argymell bod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru'n darparu ac yn marchnata gwasanaeth cymorth sydd â'r nod o ddarparu cyngor a chymorth diplomyddol i helpu artistiaid i ymdrin â'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â mynd â'u gwaith dramor.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Rhesymeg: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddi eisoes yn darparu ystod o wasanaethau cymorth ymarferol sy'n anelu at helpu artistiaid Cymru neu sefydliadau celfyddydau i wneud cysylltiadau dramor; neu wrth gyfeirio pobl at lysgenadaethau a swyddfeydd is-genhadon. Mae ein swyddfa yn Efrog Newydd, er enghraifft, yn cynnig cymorth cysylltiadau cyhoeddus i sefydliadau sydd am gynnal digwyddiadau celfyddydau yn Efrog Newydd. Roedd CCC ei hun yn cydnabod, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, y gall arian a phroblemau eraill fod yn rhwystr i artistiaid a sefydliadau celfyddydau. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol a weinyddir gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn rhoi ychydig o gymorth ariannol i artistiaid, megis y rheini sy'n cymryd rhan yn y rhaglen "Artistiaid a Churaduron" sy'n mynd â gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau i • yl gelfyddydau'r Venice Biennale. Nododd CCC/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor fod cyfleoedd i artistiaid o Gymru weithio dramor ar gynnydd ac rwyf yn cydnabod y byddem yn colli cyfle pe na bai modd i artistiaid gymryd rhan oherwydd diffyg cyngor a chefnogaeth ymarferol. Mae technoleg yn cynnig cyfle amlwg i ddarparu cymorth effeithiol am lai o gost ac mae llawer o wybodaeth gyffredinol ar gael eisoes. Mae'r Cyngor Prydeinig yn cynnig gwasanaethau cynghori sydd ar gael yn ganolog, ac mae modd ceisio'r rhain trwy ei rwydwaith o swyddfeydd ar draws y byd.

Nid wyf o'r farn, serch hynny, mai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yw'r corff mwyaf priodol i gynnig cymorth diplomyddol i artistiaid. Cyfrifoldeb y Swyddfa Dramor yw hwn. Dim ond yn rhannol yr wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn felly.

Goblygiadau Ariannol – Bydd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn parhau i gynnig cyngor a chyfarwyddyd i artistiaid gyda'r dyraniad cyllid sydd ar eu cyfer ar hyn o bryd.